## Atodiad 3 – Cofnod o Gyfarfodydd Ymgynghori gyda Chyrff Llywodraethu Ysgolion

### Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd ac Uwchradd ag Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol

- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Baden Powell (28 Tachwedd 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd y Tyllgoed  (4 Rhagfyr 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Herbert Thompson (7 Rhagfyr 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Lakeside (11 Rhagfyr 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Springwood (12 Rhagfyr 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr (13 Rhagfyr 2023)
- Corff Llywodraethu Ysgol Gymraeg Pwll Coch - *yn dilyn trafodaethau gyda Chadeirydd y Corff Llywodraethu a'r Pennaeth cytunwyd nad oedd angen unrhyw gyfarfod.*

### Darpariaeth Arbenigol i Ddysgwyr Cynradd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a / neu Awtistiaeth

- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coed Glas (30 Tachwedd 2023)
- Cynrychiolwyr Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Greenway (5 Rhagfyr 2023)
- Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Severn (23 Tachwedd 2023)

**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Zoe Spencer-Biggs (AD), Jo Phillips (CTY), 9 o Lywodraethwyr Baden Powell.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Rhoddodd Brett Andrewartha (BA), Jennie Hughes (JH) and Zoe Spencer-Biggs (ZS-B) gyflwyniad yn amlinellu manylion y cynnig ar gyfer CAA Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Darpariaeth ILIE: Cyfnod oedran cynradd
- Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/2024
- Twf diweddar
- Twf rhagamcanol
- Beth yw Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)?
- Sut mae canolfan ILIE yn gweithredu?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Baden Powell?
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA ILIE
- Staff ac Adnoddau CAA ILIE
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau a'r ymatebion a roddwyd**

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y llywodraethwyr.

**C: Mae'r ysgol wedi bod yn cynnal dosbarth anogaeth anffurfiol ers 2021, lle mae plant yn mynd pan fo angen darpariaeth fwy arbenigol. Rydym wedi cyfweld ar gyfer y swydd addysgu, sy'n secondiad tra bo'r CAA yn dal i fod ar y**

**cam ymgynghori. Mae hysbysebion hefyd ar gael ar gyfer dwy swydd cynorthwyydd addysgu.**

**C – Yr Awdurdod Lleol sy'n rhedeg y broses dderbyn drwy banel. A oes proses eithrio hefyd a sut ydym yn mynd drwyddi?**

Byddai'r ysgol ganolfan adnoddau yn cynnal y broses honno a phenderfyniad yr ysgol fyddai hynny. Byddai'r Awdurdod Lleol yn darparu cefnogaeth.

**C: Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda thîm Jennie ac mae'r gefnogaeth wedi bod yn ardderchog. Mae pedwar o blant eisoes wedi'u hadnabod ac yn yr ystafell ddosbarth y byddai'r ganolfan ynddi.**

**C: Aethom drwyddo yn ein cyfarfod corff llywodraethu ac roedd yr ymateb yn dda. Mae'r dosbarth ar waith ac mae'r gwaith adeiladu eisoes wedi'i gwblhau.**

JH – Mae'n dda clywed bod yr ysgol yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi ac mae'n dda ein bod wedi cyrraedd pwynt ymgynghori'n ffurfiol. Mae cael pedwar o blant eisoes yn y ganolfan wedi bod yn hwb. Diolch i'r llywodraethwyr am eu cefnogaeth.

**C: Pa rybudd fyddai gan yr ysgol i blant eraill i ddechrau yn y ganolfan?**

JH – Nid ydym yn edrych i dderbyn plant eraill nes bod yr ymgynghoriad ar ben. Os gwneir y penderfyniad i dderbyn mwy o blant, bydd swyddog yn cysylltu â'r ysgol i rannu gwaith papur a dod i gytundeb bod hwn yn lleoliad priodol. Byddai'r ysgolion yn cytuno ar y trosglwyddiad rhyngddynt. Byddai'r opsiwn i ymweld â'r plentyn a siarad â'r staff sydd eisoes yn gweithio gyda nhw.

**C: Rydyn ni wedi cael rhai plant o ysgol The Court gyda RhCBau yn dod yn ôl i addysg llawn amser ac yna maen nhw'n diweddu lan yn mynd nôl yn y pen draw. A fydd y defnydd o RhCBau yn parhau?**

JH – Mae'n opsiwn bob amser. Mae'n well gennym bontio graddol yn hytrach na RhCB. Rydym am i blant fod yn llawn amser cyn gynted â phosibl, ond os yw'n fanteisiol i'r plentyn, rydym yn mynd fesul cam.

Gwahoddodd BA y llywodraethwyr i gyflwyno ymateb ffurfiol ar y cyd i'r cynnig yn ogystal ag ymatebion unigol.

Diolchodd RP i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.

**Yn bresennol:** Michele Duddridge Friedl (CTY), Rachel Smith (CTY), Kassia Morris (ADY), Louise Flynn (AD), Rosalie Phillips (CTY), Llywodraethwyr Ysgol Gynradd y Tyllgoed.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Michele Duddridge Friedl (MDF) y cyfarfod a chroesawu'r staff.

Rhoddodd MDF a Louse Flynn (LF) gyflwyniad yn amlinellu manylion y cynnig ar gyfer y CAA Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd y Tyllgoed.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Darpariaeth ILlE: Oedran cynradd
- Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/2024
- Twf diweddar
- Twf rhagamcanol
- Beth yw CAA?
- Sut mae canolfan ILlE yn gweithredu?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd y Tyllgoed?
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA ILlE
- Staff ac Adnoddau CAA ILlE
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau a'r ymatebion a roddwyd**

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan y llywodraethwyr.

**Pennaeth – Yn seiliedig ar anghenion plant unigol, mae angen y newid mewn dull gweithredu a byddai'n fuddiol i blant.**

MDF – mae'r sylwadau'n ddefnyddiol a byddai hi'n annog y Corff Llywodraethu i gyflwyno ymateb (cadarnhaol neu negyddol); mae modd ymateb fel corff neu yn unigol; mae ymatebion unigol yn ddienw.

**C - Mae angen lleoedd ac mae'n gynnig cadarnhaol. Beth fyddai'n digwydd i'r dosbarth Llesiant presennol?**

KM – mae saith o blant yn y dosbarth ar hyn o bryd y bydd eu hanghenion yn cael eu hadolygu dros weddill y flwyddyn; byddant naill ai'n edrych i ddisgyblion ddychwelyd i'r brif ffrwd neu symud ymlaen i'r CAA. Ni fyddai fyth mwy nag wyth o blant yn y CAA. Mae'r newid i statws y dosbarth; cyn Covid roedd dau bwynt derbyn (Medi a Chwefror) nad oedd yn ddigon o amser i blant. Mae'r ystod o anghenion wedi cynyddu o ran cymhlethdod ac mae angen dull mwy hyblyg.

**Pennaeth – mae lleoliadau wedi bod yn gyfyngedig o ran amser, ond nid yw pob plentyn yn barod i ddychwelyd i'r brif ffrwd, mae'r ymagwedd arfaethedig yn fwy addas ar gyfer anghenion plant.**

Ni chafwyd cwestiynau pellach. Gofynnodd MDF i lywodraethwyr gysylltu â'r Tîm CTY os oedd ganddynt unrhyw ymholiadau pellach a therfynwyd y cyfarfod.

**Rhaglen Ysgolion**
**Cyfarfod Corff Llywodraethu Herbert Thompson**
**Anghenion Dysgu Ychwanegol:**
**Anghenion Iechyd a Lles Emosiynol - Cynradd**
**07 Rhagfyr 2023 am 6:00pm**

**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (ADY), Louise Flynn (AD), Jo Phillips (CTY), Llywodraethwyr Herbert Thompson.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Rhoddodd Brett Andrewartha (BA) a Jennie Hughes (JH) gyflwyniad yn amlinellu manylion y cynnig ar gyfer CAA Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Herbert Thompson.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Darpariaeth ILlE: Oedran cynradd
- Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/2024
- Twf diweddar
- Twf rhagamcanol
- Beth yw Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)?
- Sut mae canolfan ILlE yn gweithredu?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Herbert Thompson?
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA ILlE
- Staff ac Adnoddau CAA ILlE
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau a'r ymateb a roddwyd**

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y llywodraethwyr.

**C - A oes arian ar gyfer y sefydlu cychwynnol?**

JH – Mae cost sefydlu o £5,000. Gall y CAA fod o dan drefniant cyd-gyflenwi. Os oes staff yn yr ysgol sydd â diddordeb mewn gweithio yn y ganolfan, gallent symud yno, ac yna gellid llenwi eu swyddi y tu cefn iddynt.

RP – Bu trafodaeth ar leoliad y ganolfan. Y clwb bocsio yw'r opsiwn sy'n cael ei ystyried, ond byddai angen buddsoddiad sylweddol arno. A oes gan unrhyw un unrhyw gwestiynau am hyn?

**C - Rydym wedi ymweld â'r canolfannau yn Springwood a Baden Powell ac rydym hefyd yn edrych i ymweld â Lakeside a'r Tyllgoed. Mae'r holl ofodau eraill yn Herbert Thompson yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Rydym yn awyddus iawn i fwrw ymlaen, ond nid ydym am weld unrhyw effaith ar y plant eraill.**

BA – A oes unrhyw farn arall wedi'i chyflwyno ynglŷn â'r clwb bocsio?

**C - Ni chafwyd unrhyw gyflwyniadau diweddar. Mae rhai aelodau o'r gymuned sy'n edrych i gymryd y lle drosodd, ond sydd hefyd yn chwilio am leoliadau eraill. Roedd deiseb ar waith ynglŷn â'i ddefnydd.**

**C - Mae grŵp cymunedol newydd, One Community, sy'n chwilio am ddarpariaeth felly bydd angen i ni fod yn ofalus wrth gyfathrebu'r defnydd o'r clwb bocsio. Mae'r ddeiseb sydd ar waith i'w ail-adfer ar Change.org gyda thua 1000 o lofnodion.**

RP – Os cyflwynir y ddeiseb mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gellir ei hystyried fel un ymateb. Bydd y Cabinet yn edrych ar gydbwysedd y sylwadau a'r adborth yn hytrach na nifer yr ymatebion.

**C - Rydym wedi cael sgyrsiau gyda phenaethiaid eraill. Mae'r recriwtio a'r effaith ar staff yn destun pryder, ond rydym i gyd yn cytuno ac wedi cael adborth cadarnhaol gan staff.**

Gwahoddodd BA y llywodraethwyr i gyflwyno ymateb i'r cynnig fel ymateb ffurfiol ar y cyd yn ogystal ag yn unigol.

Diolchodd RP i'r staff a daeth y cyfarfod i ben.

**Yn bresennol:** Michele Duddridge-Friedel (CTY), Kassia Morris (ADY), Louise Flynn (AD), Ian Warburton (CTY), Llywodraethwyr Lakeside.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd MDF y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Rhoddodd MDF a KM gyflwyniad yn amlinellu manylion y cynnig ar gyfer CAA Iechyd a Lles Emosiynol (ILIE) yn Ysgol Gynradd Lakeside.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Darpariaeth ILIE: Oedran cynradd
- Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/2024
- Twf diweddar
- Twf rhagamcanol
- Beth yw CAA?
- Sut mae canolfan ILIE yn gweithredu?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Lakeside?
- Meini prawf ar gyfer lleoliad mewn CAA ILIE
- Staff ac Adnoddau CAA ILIE
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau a'r ymatebion a roddwyd**

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan y llywodraethwyr.

**C - Dwedodd RM fod y dosbarthiadau lles presennol wedi bod yn hynod lwyddiannus ac yn teimlo y byddai'n gymeradwyaeth gadarnhaol pe bai hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ymgynghoriad.**
MDF – Mae'r ALl yn cydnabod cyflawniadau'r dosbarth lles a hoffai atgyfnerthu hyn gyda sefydlu CAA yn ffurfiol. Ni ddisgwylir y bydd newid sylweddol i'r arferion

gweithredu presennol. Mae'n gwbl briodol y byddai'r ysgol yn dymuno cadw'r arferion llwyddiannus a ddatblygwyd eisoes.

**C - Pryd fyddai'r ddarpariaeth yn cael ei sefydlu fel CAA, ac a fydd y trefniadau staffio presennol yn cael eu cadw?**

MDF – Mae'r ddarpariaeth yn cael ei staffio ar hyn o bryd, ar gyfer 16 disgybl. Byddai'r gymhareb staffio hon yn cael ei chynnal pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Pe bai nifer y disgyblion a fyddai'n cael eu lletya am unrhyw reswm yn newid, byddai'r ddarpariaeth staffio yn cael ei hailystyried.

KM – Mae gwall ar y cyflwyniad. Mae'r trefniadau ariannu staff ar gyfer
2 x athro, 4 x Cynorthwyyddd Addysgu gradd 4 , 1 x CALU, 1 x MDS i ddiwallu anghenion 16 disgybl.

**C - A yw'r cyllid ar gyfer y sefydliad hwn wedi'i ariannu'n llawn gan yr ALl. A fyddai hyn yn parhau i gael ei ariannu'n llawn waeth beth fydd dyfarniadau cyflog, unrhyw newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol / Pensiwn ac ati**

KM – Mae'r ALl yn ariannu'r holl swyddi yn llawn ac rwy'n credu y bydd yr ALl yn parhau i wneud hynny. Byddaf yn gwirio'r manylion hyn ac yn cysylltu â chi i gadarnhau'r sefyllfa.

**C: Beth yw'r effaith o ran amser ychwanegol sydd ei angen ar y Pennaeth i gefnogi'r CAA?**

KM – Does dim arian ychwanegol yn cael ei roi i gyllideb yr ysgol. Mae cyflog pennaeth yn gymhleth ac yn gysylltiedig â niferoedd a chyfansoddiad disgyblion mewn ysgol. Mae trefniadau staffio yn gymesur â nifer y plant sy'n cael eu lletya.

**C - Mae rhai pryderon yn ymwneud ag ehangu'r ddarpariaeth; Nid yw'r dosbarth lles erioed wedi gweithredu ag 16 disgybl, ac ni fyddem am gyfaddawdu ar y gwasanaeth rhagorol a ddarparwn. Bydd ein hymateb i'r ymgynghoriad yn adlewyrchu'r safbwynt hwn.**

**C: I fod yn glir, a yw'r cynnig hwn gyfystyr ag ehangu ai peidio?**

MDF – Mae'r cyfleuster presennol wedi'i sefydlu i gynnig darpariaeth ar gyfer 16 disgybl ac felly nid ehangu yw'r cynnig. Rydym yn deall hynny'n iawn, gan nad yw'r cyfleuster erioed wedi bod yn llawn, y gellir ei ystyried yn ehangu gan staff presennol, ond mae'r ddarpariaeth wedi ei staffio i gefnogi 16 o ddisgyblion nawr ac wrth symud ymlaen.

**C: Beth yw'r gwahaniaethau ymarferol rhwng yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, a beth fydd yn digwydd pe bai'r CAA yn cael ei sefydlu**

KM – O'ch rhan chi, mae'n annhebygol y bydd unrhyw newidiadau ymarferol. Yr arfer gweithredu yn y dosbarth lles presennol, sy'n caniatáu lleoli a phontio hyblyg a chofrestru disgyblion yn ddeuol, yw'r model y mae'r ALI yn bwriadu ei weithredu mewn CAAau ILIE eraill ledled Caerdydd. Mae'r ALI wedi dysgu o brofiad Lakeside.

MDF – Mae'r cynnig hwn yn fwy o achos o ffurfioli'r trefniadau presennol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion. Yn weithredol, mae'n annhebygol y bydd llawer o newid i ymarfer.

**C: A allwn ni gymryd yn ganiataol y bydd y ganolfan yn cael ei hariannu ar gyfer 16 disgybl, beth bynnag fo nifer y plant sy'n cael eu derbyn?**

KM – Bydd y ganolfan yn ddarpariaeth 16 lle a bydd yn cael ei hariannu ar y lefel honno. Pe bai nifer y lleoedd yn cael eu lleihau, byddai cyllid yn cael ei ailystyried.

Diolchodd MDF i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.

**Yn bresennol:** Brett Andrewartha (CTY), Cath Keegan-Smith (ADY), Zoe Spencer-Biggs (AD), Jo Phillips (CTY), Llywodraethwyr Springwood.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Brett Andrewartha (BA) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Rhoddodd BA, Cath Keegan-Smith (CKS) a Zoe Spencer-Biggs (ZS-B) gyflwyniad yn amlinellu manylion y cynnig ar gyfer CAA Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Gynradd Baden Powell.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Darpariaeth ILlE: Oedran cynradd
- Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/2024
- Twf diweddar
- Twf rhagamcanol
- Beth yw CAA?
- Sut mae canolfan ILlE yn gweithredu?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Baden Powell?
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA ILlE
- Staff ac Adnoddau CAA ILlE
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau Eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau a'r ymatebion a roddwyd**

Gwahoddodd BA gwestiynau gan y llywodraethwyr.

**C –** A fydd y newidiadau'n darparu digon o leoedd i bob disgybl?

BA – Mae rhagamcanion o nifer y lleoedd sydd eu hangen yn awgrymu y bydd yr angen am leoedd yn fwy a bydd plant yn dal i gael eu lleoli y tu allan i'r sir ac mewn lleoedd annibynnol. Byddai'r CAAau yn agor ym mis Medi 2024, er y byddai derbyniadau yn raddol.

**C –** Pryd bydd y ganolfan yn cael ei sefydlu ac yn gweithredu?

BA – Mae'r dosbarth lles yn cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mae'r newid i CAA yn rhoi statws parhaol i'r dosbarth ac mae'r ymgynghoriad yn ffordd o ffurfioli'r statws hwnnw. Yna dim ond trwy ymgynghoriad arall y gellid cau'r CAA.

**C –** A fydd y plant o'r dosbarth lles yn aros yn y ganolfan?

BA – Mae'r CAA yn cynnig mwy o hyblygrwydd a byddai'n galluogi'r plant i aros yno pe bai angen lleoliad hirach arnynt.

**C –** A fydd gan blant newydd CDUau?

CKS – Byddai CDU gan bob plentyn sy'n cael ei roi yn y CAA. Yr unig gafeat i hynny fyddai plentyn yn symud i Gaerdydd o Loegr gyda CAGI y byddai'n rhaid ei drosglwyddo i CDU, y byddai'r CAA wedyn yn ei ddiweddaru'n gyson.

**C – Mae'r ysgol wedi ennill enw da am y gwaith rydyn ni wedi'i wneud, ac mae mwy o blant ag ADY yn ymuno â'r ysgol. Mae hyn yn effeithio ar gyllideb yr ysgol, gan nad oes arian ynghlwm wrth y disgyblion yn dod i mewn.**

CKS - Rydym yn gweld hyn ar draws Caerdydd, yn enwedig yn y Blynyddoedd Cynnar. Efallai ei fod oherwydd Covid ond mae tuedd ar draws y ddinas.

BA – Mae darn o waith yn cael ei wneud sy'n edrych ar sut mae'r model ariannu yn gweithio, felly nid yw'n amhosib y bydd y sefyllfa'n newid.

Gwahoddodd MDF y llywodraethwyr i gyflwyno ymateb i'r cynnig fel ymateb ffurfiol ar y cyd yn ogystal ag yn unigol.

Diolchodd BA i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.

**Rhaglen Ysgolion**
**Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Plasmawr**
**Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**Iechyd a Lles Emosiynol - Uwchradd**
**13 Rhagfyr 2023 am 6pm**

**Yn bresennol:** Richard Portas (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Rhian Carbis (CTY), Jennie Hughes (JH), Rosalie Phillips (CTY), Aelodau Corff Llywodraethu Ysgol Plasmawr, Cyfieithydd Cymraeg.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod trwy Zoom**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Richard Portas (RP) y cyfarfod a chroesawodd y llywodraethwyr.

Rhoddodd Rhian Carbis gyflwyniad yn amlinellu manylion y cynnig ar gyfer y Ganolfan Adnoddau Arbenigol Iechyd a Lles Emosiynol yn Ysgol Plasmawr.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd
- Darpariaeth ILIE bresennol – cyfnod oedran uwchradd
- Twf diweddar
- Y galw a ragwelir
- Beth yw CAA?
- Sut mae canolfan ILIE yn gweithredu?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr?
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA ILIE
- Staff ac Adnoddau CAA ILIE
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA Awtistiaeth
- Staff ac Adnoddau CAA Awtistiaeth
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau Eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau ac ymateb a roddwyd**

Gwahoddodd RP gwestiynau gan y Corff Llywodraethu.

**C – Mae'r amser sydd ar gael i ymateb i'r ymgynghoriad yn gyfyngedig.** A fyddai'r 20 lle yn rhedeg ar draws yr ystod oedran 11-18? Faint o staff addysgu fyddai yno ac a fyddai hyn ar sail angen? A oes unrhyw gynlluniau ar gyfer cymorth ychwanegol yn y cyfnod cyn yr agoriad e.e. Seicolegydd Addysg, hyfforddiant staff? Hoffem gael eglurder ynghylch sut olwg fyddai ar hyn.

JH **–** 20 lle sy'n gyson â'r ddarpariaeth CAA yng Ngorllewin Caerdydd ond yn cytuno ar staffio ychwanegol yng Ngorllewin Caerdydd ar gyfer y chweched dosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn trosglwyddo i'r coleg/dysgu seiliedig ar waith yn 16 oed ond byddent yn gweithio gyda dysgwyr ar lwybrau dysgu priodol.

Byddai cymarebau staff yn unol â Gorllewin Caerdydd ond yn agored i'w hadolygu a gellir eu haddasu ar sail angen. Dyrennir Seicolegydd Addysg ychwanegol i bob canolfan. Pe cytunid bwrw ymlaen â'r ganolfan, byddai cymorth ar gael ar gyfer apwyntiadau a hyfforddiant.

RP – Mae cyfleoedd prin i ymgynghori, gan ganiatáu am gyfnodau gwyliau. Nodir manylion y newidiadau arfaethedig yn y ddogfen ymgynghori a'u crynhoi yn y cyflwyniad.

**Q – Gwnaeth Estyn argymhellion ynghylch gwelliannau i'r safle a phryderon na fydd y gwelliannau hyn yn cael eu gwneud. O ble y daw staff, pwy fydd yn eu rheoli a phryd y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu?**

RP – Tynnodd Estyn sylw at faterion ac mae gwaith cyfalaf wedi'i gynllunio; sefyllfa ariannol heriol a mynd trwy'r broses i flaenoriaethu gwaith. Mae materion yn cael eu rheoli trwy asesiadau risg ac yn cydnabod anghenion.

**C –** Pryderon ynghylch cynnwys dysgwyr ychwanegol sy'n agored i niwed ar y safle os nad yw'r gwaith yn cael ei ddatblygu.

RP – Yn ystyried ffyrdd o sicrhau cyllid. Mae Ysgol Plasmawr wedi cael ei chyflwyno fel cynllun blaenoriaeth. Nid oes modd ymrwymo i amserlen ond gall roi amlinelliad dangosol.

JH – pe bai'n cael ei ddatblygu, byddai'n rhaid i staff fod yn eu lle; byddai plant sydd eisoes yn yr ysgol yn gymwys i gael mynediad i le yn y CAA a fyddai'n fuddiol. Byddai'r ysgol yn penderfynu sut byddai'r CAA yn gweithredu o fewn yr ysgol ond byddai'n cynnig cymorth a chyngor.

BA - Y cynharaf y gellid sefydlu'r ganolfan yw ym mis Medi 2024 ond mae'n rhaid bod lle, staff a hyfforddiant priodol ar waith. Does dim disgwyl y byddai 20 o blant yn y ganolfan o'r dyddiad hwnnw ymlaen.

**Q – Pam mae Ysgol Plasmawr wedi cael ei dewis? A oes gan yr ysgol ddewis? Bydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith ar led band uwch reolwyr; mae delio â dysgwyr mwy heriol yn cymryd llawer o amser.**

**Pennaeth – Yn gyfarwydd â fformat gyda darpariaeth ADY eisoes yn Ysgol Glantaf. Mae yna blant yn yr ysgol a fyddai'n elwa o'r ddarpariaeth ac yn awyddus i'r CAA gael ei sefydlu yma.**

**C – Pryderon ynghylch adnoddau, nid yr egwyddor o sefydlu darpariaeth. A fydd 20 lle yn ateb y galw presennol/yn y dyfodol? Ydy 20 lle yn ddigon?**

JH - Bu cynnydd sylweddol mewn angen ac mae'n anodd bod yn sicr. Mae'n glir bod angen darpariaeth yn y sector yng Nghymru ac mae gan yr ysgol ddisgyblion a fyddai'n elwa o'r ddarpariaeth. Mae gan Ysgol Glantaf ganolfan eisoes ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a bydd yn ystyried a oes angen canolfan arall yn Ysgol Bro Edern. Does dim darpariaeth Gymraeg ar gyfer ILIE ar hyn o bryd a bydd angen monitro galw wrth i'r sector cyfrwng Cymraeg dyfu.

RP – Mae CSCA yn nodi y dylai 50% o'r holl ysgolion CDLI fod yn gyfrwng Cymraeg ac y byddai'n disgwyl darpariaeth ADY fel rhan o'r rhain.

**Q –** A yw'r Cyngor yn hyderus bod hyfforddiant i staff a chymorth Seicolegydd Addysg ar gael trwy'r Gymraeg? A oes unrhyw strategaeth ar gyfer hyn?

JH **–** Mae nifer da o staff Cymraeg ar draws holl wasanaethau ADY, ac mae hyn yn parhau i gael ei flaenoriaethu ac rydym yn hyderus y bydd y sefyllfa hon yn parhau.

**Q – Mae nifer y plant ag anghenion yn cynyddu. Bydd effaith diffygion yn y gyllideb yn ysgolion Caerdydd yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion ag anghenion yn y brif ffrwd.**

JH – Yn ymwybodol o waith parhaus gyda Phenaethiaid i ystyried sut y gellir mynd i'r afael â chyllidebau diffyg ond nid yw yn y sefyllfa orau i wneud sylwadau ar hyn.

RP – Yn ystyried dull cyfunol o ymdrin ag anghenion cyllidebau diffyg/anghenion ADY gyda Phenaethiaid. Mae bwrdd effeithlonrwydd yn cael ei sefydlu a fydd yn cael ei gadeirio gan Brifathro.

**C –** Pryd bydd amserlen a chyllideb y CAA yn hysbys?

RP **–** Nid yw'r sefyllfa o ran y setliad yn hysbys eto ond bydd yn rhannu hyn cyn gynted â phosibl.

JH – Yn gallu darparu gwybodaeth ddangosol am gyllidebau.

**C –** Ni chaiff y penderfyniad ei gadarnhau tan fis Gorffennaf ac ni fyddai'n gwybod a oedd cyllideb ar gael.

JH **–** Byddai angen ystyried cyn hyn. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth sylweddol eisoes ar waith. Does dim modd bwrw ymlaen heb gytundeb. Gallai'r trefniadau presennol barhau am flwyddyn arall a gallent agor o fis Medi 2025.

Pennaeth – Yn awyddus i ddechrau cyn gynted â phosib. Byddai angen ystyried adnabod disgyblion, pontio a staffio os byddent yn symud ymlaen â'r cynllun.

RP – Mae'n fater o reoli risg; efallai y bydd modd ystyried bwrw ymlaen ar risg ar sail yr adborth o'r ymgynghoriad.

**C –** Ble byddai'r her fwyaf a sut y gellid mynd i'r afael â hon?

RP **–** Yn ymgymryd â nifer o gynigion bob blwyddyn. Mae'r broses yn risg isel ar yr amod bod yr ysgol yn gefnogol, ac nid yw'n rhagweld gwrthwynebiadau. Yn ariannu pwynt allweddol ar gyfer bwrw ymlaen â gwaith sydd wedi'i gynllunio, ond mae'r ysgol wedi'i nodi fel cynllun blaenoriaeth ac mae'n disgwyl cadarnhad yn fuan. Os oes gwrthwynebiadau, byddai angen ystyried y rhain ond mae'r opsiynau cyfrwng Cymraeg yn brin. Bydd yr ymgynghoriad yn llywio'r ffordd ymlaen.

**C – Mae'n cydnabod angen ond mae angen digon o amser i sefydlu'r ganolfan neu gallai fethu a does neb am weld hynny'n digwydd. Gorau po gyntaf y gall yr ysgol gael gwybodaeth well er mwyn caniatáu i'r cynllun angenrheidiol lwyddo.**

Nid oedd unrhyw gwestiynau pellach. Diolchodd RP i'r llywodraethwyr a daeth y cyfarfod i ben.

**Rhaglen Ysgolion**
**Cyfarfod Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Coed Glas**
**Anghenion Dysgu Ychwanegol:**
**Anghenion Dysgu Cymhleth/Awtistiaeth - Cynradd**
**30 Tachwedd 2023 am 5.30pm**

**Yn bresennol:** Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Cath Keegan-Smith (ADY), Louise Flynn (AD), Shirley Karseras (CTY), 14 o Aelodau Corff Llywodraethu Coed Glas.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod yn Ysgol Gynradd Coed Glas**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Michele Duddridge-Friedl (MDF) y cyfarfod a chroesawodd aelodau'r Corff Llywodraethu.

Rhoddodd BA a CKS gyflwyniad yn amlinellu manylion y cynnig ar gyfer CAA ADC/Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Coed Glas.

Nododd y cyflwyniad y canlynol:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Dosbarthiad lleoedd
- Darpariaeth ADC/CSA gyfredol oedran cynradd
- Twf diweddar
- Y galw a ragwelir
- Beth yw CAA?
- Sut mae canolfan ADC yn gweithredu?
- Sut mae canolfan awtistiaeth yn gweithredu?
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Coed Glas?
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA ADC
- Staff ac Adnoddau CAA ADC
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Meini prawf ar gyfer lleoliad CAA Awtistiaeth
- Staff ac Adnoddau CAA Awtistiaeth
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynigion
- Gwerthuso opsiynau
- Ystyriaethau eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau a'r ymateb a roddwyd**

Gwahoddodd MDF gwestiynau gan y Corff Llywodraethu.

**C –** A yw'r cynnig ar gyfer canolfan ADC ac Awtistiaeth neu ar gyfer un math yn unig?

MDF – Byddai'r CAA a gynigir ar gyfer y naill fodel neu'r llall, nid cymysgedd. Ond gan ddibynnu ar ddiagnosis unigol, gallai fod gan ddisgybl ADC ac awtistiaeth, ond byddai'r ddarpariaeth ar gyfer ei brif angen.

**C – Mae'r Corff Llywodraethu'n poeni am yr effaith ar yr ysgol a'r staff os cymeradwyir model y CAA Awtistiaeth.** Pryd gwneir y penderfyniad ynghylch y math o fodel?

MDF – Mae lefel uchel o angen am leoedd CAA Awtistiaeth ar draws y ddinas, ond y cam ymgynghori yw caniatáu i randdeiliaid lywio'r broses o wneud penderfyniadau. Ni fyddai penderfyniad yn cael ei wneud nes bod y Cabinet yn adolygu canfyddiadau'r ymgynghoriad ym mis Mawrth 2024. Byddai penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ar ôl i gyfnod gwrthwynebu ddod i ben, tua mis Gorffennaf 2024.

**Q –** Felly ai'r model Awtistiaeth sy'n cael ei ffafrio?

MDF – Mae angen i'r Corff Llywodraethu a'r staff ystyried beth fyddai orau i'w hysgol ac ymateb yn unol â hynny i'r ymgynghoriad.

**C – Mae gan yr ysgol y Ganolfan Adnoddau Nam ar y Clyw (CANC) eisoes.** A fyddai unrhyw fanteision trwy gyfuno'r math hwn o ddarpariaeth â'r model ADC?

CKS – Gallai fod cyfle i alinio gwybodaeth a sgiliau staff.

**C –** A yw maint y CAA Awtistiaeth arfaethedig yr un fath ag eraill sydd ar waith yng Nghaerdydd ar hyn o bryd?

CKS – Ydy, rydym yn mabwysiadu dull cyson ar draws y ddinas. Mae rhai sydd â niferoedd mwy, ond mae hynny wedi bod ar gais yr ysgol benodol.

**C –** Sut byddai'n gweithio pe bai tri myfyriwr o'r CANC a thri myfyriwr o'r CAA arfaethedig yn gallu cael mynediad i un dosbarth prif ffrwd?

CKS – Byddai recriwtio disgyblion yn cael ei reoli'n ofalus yn unol ag ymrwymiadau presennol yr ysgol.

**C – A fyddai Cynorthwywyr Addysgu byth yn cael eu defnyddio yn y CAA, gan adael y dosbarth prif ffrwd yn brin o adnoddau?** Beth fyddai'n digwydd o ran absenoldeb staff yn y CAA?
Esboniodd MDF y modelau cymhareb staff ar gyfer y ddau fath o CAA. Efallai y bydd staff â sgiliau arbenigol a allai helpu yn ystod absenoldebau yn y CAA.

**C –** A oes ymarferwyr profiadol, cymwys ar gael i ymgymryd â'r swyddi hyn?

CKS - Oes. Does dim problem wedi bod o ran recriwtio staff i weithio ym maes ADY yng Nghaerdydd.

**C –** A yw'r cyllid ar gyfer y CAA yr un fath p'un a oes ganddynt 18 o fyfyrwyr neu'r uchafswm o 20?

MDF – Ydy. Nid oes unrhyw adfachu cyllid. Yr unig wahaniaeth fyddai cyllid enwol y Gronfa Diogelu Pensiynau a fyddai'n amrywio.

**C –** A fyddai cyllid ychwanegol ar gael yn ogystal â'r cyllid a fyddai'n cael ei ddyrannu i'r CAA pe bai disgybl yn cael ei nodi fel un sydd ag anghenion mwy?

CKS – Na fyddai. Pe bai disgybl yn cael ei asesu fel un ag angen mwy o gymorth nag y gallai'r CAA ei ddarparu, byddai'r plentyn hwnnw'n cael ei roi mewn darpariaeth ysgol arbenigol. Cynhelir adolygiadau statudol gan staff arbenigol cyswllt sy'n nodi unrhyw ofynion ychwanegol y gallai fod eu hangen.

**C –** A fyddai'r ddarpariaeth hon yn barhaol pe bai'r cynnig yn cael ei gytuno?

MDF – Byddai. Byddai unrhyw newid yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus arall.

**C –** A fyddai ystod o oedrannau disgyblion wedi cofrestru yn y CAA?

CKS – Byddai. Byddai dyranniad y disgyblion yn sicrhau cydbwysedd o ran oedran, rhywedd ac angen. Mae'r ysgol a'r rhieni bob amser yn ymwneud â phenderfyniadau o ran dyraniadau.

**C –** Beth yw'r weithdrefn o ran absenoldeb salwch i staff y CAA?

CKS – Byddai hyn yn yr un modd ag y rheolir y CANC, gyda chyllid ar y cyd yn cael ei ddarparu ar gyfer staff cyflenwi.

**C –** Sut mae'r NDC yn gweithredu ar gyfer pob un o'r modelau CAA?

CKS – Mae disgyblion ag ADC yn ychwanegol at yr NDC gan y byddent yn treulio eu diwrnod ysgol arferol yn y CAA, ond mae disgyblion ag awtistiaeth a fyddai'n mynychu gwersi prif ffrwd ar adegau, yn cael eu cynnwys yn yr NDC.

**C – Pwy sy'n gwneud penderfyniadau ar ganran yr amser y byddai pob disgybl yn ei dreulio yn y dosbarthiadau CAA a phrif ffrwd?** Mae pryder y gallai tarfu effeithio'n andwyol ar ddisgyblion yn y brif ffrwd.

CKS **–** mae cydweithio rhwng staff yn y CAA a'r staff sy'n gweithredu yn y brif ffrwd yn yr un ffordd ag y mae rhwng staff Coed Glas ar hyn o bryd.

**C –** A yw'r Cynorthwywyr Addysgu wedi'u hyfforddi ar gyfer anghenion penodol pob un o'r disgyblion sydd wedi cofrestru yn y CAA?

CKS – Mae gan y gwasanaeth Cynhwysiant wahanol dimau i ddarparu gwahanol fathau o hyfforddiant, gan ddibynnu ar anghenion y disgyblion. Byddai'r staff yn dechrau yn y CAA cyn disgyblion ac yn cael eu hyfforddi'n benodol i anghenion y disgyblion a fyddai'n ymuno yn ddiweddarach.

Pennaeth – Mae'n well adeiladu tîm sy'n gallu darparu ystod o sgiliau yn hytrach na chanolbwyntio ar berthnasoedd 1 i1. Gall y rhain fod yn broblemus os oes methiant yn y berthynas oherwydd absenoldeb staff, er enghraifft.

**C –** A yw'r 60 o leoedd arfaethedig ledled y ddinas yn ateb y galw?

CKS – Nac ydynt. Mae amcanestyniadau o leoedd sydd eu hangen yn dangos bod angen hyd yn oed mwy, ond mae hyn yn ddechrau.

**C - Os cymeradwyir CAA ar gyfer Awtistiaeth yng Nghoed Glas, a fyddai disgwyl cynyddu nifer y lleoedd ar ryw adeg yn y dyfodol i ddiwallu'r angen cynyddol hwn?**

CKS – Na fyddai, ond mae rhai ysgolion wedi cysylltu â'r Awdurdod ac wedi gofyn am gynyddu eu niferoedd yn y CAA. Byddai hyn yn cael ei ystyried pe bai angen.

**Q – Ble byddai'r CAA yn cael ei osod?** A fyddai o fewn prif adeilad yr ysgol neu yn y caban?

MDF – Does dim opsiwn i adeiladu lle ychwanegol ac felly byddai o fewn yr adeiladau presennol. Fodd bynnag, penderfyniad yr ysgol fyddai’r union leoliad. Byddai gan yr Awdurdod fewnbwn i sicrhau bod y lleoedd a ddarperir yn dilyn y safonau priodol i ddiwallu anghenion y disgyblion.

**C –** Pa mor hir y mae CAA Awtistiaeth wedi bod mewn bodolaeth?

BA - Dros ddeng mlynedd ond cafodd ei hehangu yn 2022.

**C –** A oes unrhyw gyllid ar gael i greu lle i'r CAA?

MDF – Nac oes.

Dywedodd y Pennaeth y byddai lle ar gael pe bai niferoedd disgyblion yn aros yn is na'u NDC a bod yr NDC yn cael ei leihau.

**C –** Pwy sy'n penderfynu a yw'r lle sydd ei angen yn briodol?

BA – Mae'r Awdurdod eisoes wedi cynnal asesiad o le sy'n dangos bod digon o le ar gael.

**C – A yw'r effaith ar y cwricwlwm i ddysgwyr yng Nghoed Glas wedi cael ei ystyried o ganlyniad i gyflwyno'r CAA yn eu hysgol?** Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol?

CKS – Yr effaith ar ddisgyblion presennol fydd dysgu sut i fod yn rhan o gymuned oddefgar ehangach. Nid oes unrhyw effeithiau negyddol yn fy marn i.

**C –** Beth fyddai'r effaith ar staff wrth gyflwyno'r CAA?

Pennaeth – Gallai fod budd i staffio gan mai'r CAA fyddai'n gyfrifol am CDU y dysgwyr, a fyddai'n cynnig cymorth ychwanegol i'r Cydlynydd ADY.

**C –** Beth yw'r effaith ar y Pennaeth a'r UDA i reoli unrhyw ddadreoleiddio pellach a allai ddigwydd?

CKS – Byddai'r deg aelod o staff yn cael eu recriwtio ac yn gweithio cyn i unrhyw ddisgybl gyrraedd. Pe bai'r broses recriwtio yn cael ei hystyried yn ofalus, gallai'r effaith ar yr UDA leihau gan y gallai lefelau dadreoleiddio wella.

**C –** A oes unrhyw ddisgyblion presennol yng Nghoed Glas a allai fynychu'r CAA arfaethedig?

Pennaeth – O bosib. Bydd angen ystyried pob agwedd ar y mater.

**C –** Beth fyddai barn rhieni ar sefydlu CAA, yn ein tyb ni?

MDF – Mae nifer o ddulliau ymgynghori wedi'u cynllunio drwy gydol y cyfnod ymgynghori gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, sesiynau galw heibio, a gohebiaeth e-bost lle bydd rhieni'n gallu darganfod mwy a mynegi eu barn.

Gwahoddodd MDF y Corff Llywodraethu i gyflwyno ymatebion i'r cynnig fel ymateb ffurfiol ar y cyd yn ogystal ag yn unigol. Rhannodd y ddolen i'r arolwg ar-lein.

Diolchodd MDF i'r rhai a oedd yn bresennol a daeth y cyfarfod i ben.

**Rhaglen Ysgolion**
**Cyfarfod anffurfiol - Ysgol Gynradd Greenway**

**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**5 Rhagfyr 2023 am 2:30pm**

**Yn bresennol:** Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (Cynhwysiant), Nic Naish (Pennaeth), cynrychiolwyr y Corff Llywodraethu

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod mewn person yn Ysgol Gynradd Greenway**

Mae'r cyfarfod hwn yn ymwneud â'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth ac Awtistiaeth, yn benodol y cynnig i:

- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol (CAA) 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Greenway o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

Amlinellodd swyddogion y newidiadau arfaethedig ledled y ddinas, y cynnig i sefydlu darpariaeth yn Ysgol Gynradd Greenway. Yn dilyn trafodaeth, cytunodd Swyddogion i gyhoeddi cyflwyniad i'w ddosbarthu gan y Cadeirydd i'r Corff Llywodraethu i'w drafod yng nghyfarfod nesaf y Corff Llywodraethu.

Cafwyd cyflwyniad yn nodi manylion y newidiadau arfaethedig:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/2024
- Darpariaeth ADC a/neu Awtistiaeth – cyfnod oedran cynradd
- Galw am leoedd
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Ysgol Gynradd Greenway?
- Beth yw Canolfan Adnoddau Arbenigol?
- Meini prawf ar gyfer lleoli
- Staff ac Adnoddau
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynnig
- Anfanteision / risgiau posibl
- Dewisiadau amgen
- Ystyriaethau eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

Atgoffwyd y llywodraethwyr bod yr ymgynghoriad yn rhedeg o 20 Tachwedd 2023 i 19 Ionawr 2024 a bod croeso i ymatebion. Gellir anfon unrhyw gwestiynau neu sylwadau pellach at ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk.

**Rhaglen Ysgolion**
**Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Severn**
**Darpariaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol**
**23 Tachwedd 2023 am 6pm**

**Yn bresennol:** Michele Duddridge-Friedl (CTY), Brett Andrewartha (CTY), Jennie Hughes (Cynhwysiant), Ceri Tanti (CTY), Nicholas Wilson (Pennaeth), aelodau o'r Corff Llywodraethu ac arsylwyr y Corff Llywodraethu a wahoddwyd gan y pennaeth i fod yn bresennol.

*Sylwer: Nid trawsgrifiad yw'r canlynol, ond nodyn o'r cyfarfod a wnaed ar y pryd.*

**Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Microsoft Teams**

**Croeso a Chyflwyniadau**

Agorodd Michele Duddridge-Friedl (MDF) y cyfarfod, gan groesawu'r rhai oedd wedi dod.

Mae'r cyfarfod hwn yn ymwneud â'r ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i ddarpariaeth Anghenion Dysgu Cymhleth ac Awtistiaeth.

Bydd y cyfarfod yn ystyried y cynnig i:
.
- sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 20 lle ar gyfer Anghenion Dysgu Cymhleth a/neu Awtistiaeth yn Ysgol Gynradd Severn o fis Medi 2024, yn yr adeiladau presennol.

Atgoffwyd y llywodraethwyr bod yr ymgynghoriad yn rhedeg o 20 Tachwedd 2023 i 19 Ionawr 2024 a bod croeso i ymatebion.

Cafwyd cyflwyniad a nododd fanylion y newidiadau arfaethedig:

- Beth sy'n cael ei gynnig ledled y ddinas?
- Cefndir
- Digonolrwydd lleoedd
- Darpariaeth ADY Arbenigol Caerdydd 2023/2024
- Darpariaeth ADC a/neu Awtistiaeth – cyfnod oedran cynradd
- Galw am leoedd
- Beth sy'n cael ei gynnig ar gyfer Ysgol Gynradd Severn?
- Beth yw Canolfan Adnoddau Arbenigol?
- Meini prawf ar gyfer lleoli
- Staff ac Adnoddau
- Cwricwlwm, Derbyniadau a Chynhwysiant
- Ansawdd a Safonau
- Manteision y cynnig
- Anfanteision/risgiau posibl
- Dewisiadau amgen
- Ystyriaethau Eraill
- Ystyriaethau AD
- Beth sy'n digwydd nesaf?

**Cwestiynau ac ymateb**

**C** **Pennaeth - Pryderon am gyflwr yr adeilad a sut byddai'r cynnig yn gweithio - lle byddai dosbarthiadau'n mynd? A fyddai llawr uchaf yr adeilad yn cael ei ddefnyddio (lle mae dysgu cymunedol wedi'i leoli)?**

MDF Ymwelwyd â'r adeilad; mae rhai problemau gyda'r cyflwr, sy'n her a wynebir gan lawer o ysgolion. Mae'r niferoedd sy'n mynd i mewn i ysgolion yn is ar draws y ddinas ar hyn o bryd. Mae angen gwneud y defnydd gorau o unrhyw ysgol. Byddai angen i hyn fod yng nghyd-destun yr ysgol gyfan; y posibiliadau sydd gan yr adeilad, ynghyd ag atebion ar gyfer mannau i'r Awdurdod Lleol a rhieni ollwng disgyblion ADY. Efallai bod gan yr ysgol a'r Cyngor syniadau gwahanol o ble y byddai CAA yn gweithio orau, a byddai'n rhaid trafod hyn. Bydd yn cael sgwrs cyn diwedd yr ymgynghoriad. Byddai gwahanol opsiynau ar gael.

**C** **Mae gan yr ysgol le bach awyr agored. Teimlir y byddai angen i'r Corff Llywodraethu drafod ac ystyried sut y gallai'r gofod allanol weithio, gan na fyddai eisiau cymryd lle oddi wrth ddisgyblion presennol nac effeithio ar weithrediad yr ysgol.**

MDF Gellir trafod y defnydd o'r gofod awyr agored gan nad oes modd cynyddu maint y lle sydd ar gael.

**Q** **Rôl Cydlynwyr ADY – a fyddai'n rhaid iddynt ymgymryd â gwaith ychwanegol o'r CAA?**

JH Mae gwahanol ysgolion yn defnyddio trefnau gwahanol. Bydd athrawon newydd y CAA yn arbenigwyr ADY y bydd ganddynt y sgiliau i wneud adolygiadau CDU a gweithio gyda rhieni disgyblion ag ADY. Gall bod â staff arbenigol ychwanegol yn yr ysgol fod yn gymorth i'r Cydlynydd ADY. Fel arfer, mae swyddi athrawon y CAA yn cael eu hariannu i'r pwynt uchaf a allai ddarparu cyllid ychwanegol i'r ysgol ar y dechrau os yw'r athro yn cael ei recriwtio ar bwynt is ar y raddfa gyflog. Nid yw'r model o sut mae'r CAA yn gweithio gyda'r ysgol yn bendant – gall yr ysgol benderfynu beth sy'n gweithio orau.

**C** **Pryder am oblygiadau costau i'r ysgol – er bod cyllid ar gyfer cyflogi'r staff, mae'n debyg nad oes cyllid ar gyfer y gwaith ychwanegol y bydd angen i'r rheolwyr ei wneud gyda staff ychwanegol, na chyllid tuag at gostau ymarferol fel gwresogi a goleuo, sydd wedi bod yn fwy o broblem yn ddiweddar.**

**C:** **Oherwydd diffyg cyllideb, mae'r UDA wedi gorfod treulio mwy o amser yn addysgu, gan adael llai o amser ar gyfer dyletswyddau rheoli.**

JH Awgrymwyd siarad ag ysgolion eraill sy'n cynnal CAAau ynghylch y pethau ymarferol. Er nad oes cyllid ychwanegol ar gyfer y costau hynny, mae manteision ynghlwm wrth gynnal CAA e.e. gall yr ysgol gynnig mwy a gall fod ganddi fwy o arbenigedd ar y safle.

Mae adborth gan ysgolion yn awgrymu nad ydyn nhw'n ystyried bod cynnwys CAA yn anfantais. Yn gyffredinol, mae Cyrff Llywodraethu ac Uwch Dimau Arwain yn nodi bod manteision meddu ar ganolfan yn gwrthbwyso'r gost/gwaith ychwanegol.

MDF Mae cyfrifiad cyflog y pennaeth yn seiliedig ar bwyntiau. Mae dyraniad ychwanegol yn cael ei wneud i ddisgyblion CAA sy'n gallu effeithio ar gyflog y pennaeth, felly mae'n bosibl y bydd rhywfaint o ad-daliad ychwanegol am gymorth rheoli.

MDF O ran costau ynni, os yw ardal yr ysgol yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd, byddai'r ysgol eisoes yn talu am olau a gwres. Mae rhan o'r cyllid yn seiliedig ar arwynebedd llawr. Os bydd mwy o'r adeilad yn cael ei ddefnyddio, megis yr ardal addysgu gymunedol ar y llawr cyntaf, byddai hyn yn effeithio ar yr arian a dderbynnir.

**C Mae'r ysgol wedi'i gorchuddio â sgaffaldiau; a oes posibilrwydd cyflymu'r gwaith hwn i'r ysgol sydd â CAA? Pa fuddion eraill sydd ar gael i'r ysgol?**

MDF Mae nifer o ysgolion sydd â sgaffaldiau, ac mae gwaith ar y rheiny yn cael ei flaenoriaethu ar sail angen. Ni fydd y gwaith o reidrwydd yn cael ei gyflymu os bydd cynnig y CAA yn cael ei gymeradwyo. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud gwaith er mwyn i'r ardaloedd fod yn addas ar gyfer disgyblion CAA, byddai'r gwaith yn cael blaenoriaeth. Ni ellir addo y byddai'n symud i frig y rhestr.

**C A fyddai sgaffaldiau ger mymedfeydd/allanfeydd yn cael eu blaenoriaethu?**

MDF O bosib, byddai angen ystyried hyn yn gyfannol. Gallai'r disgyblion a fyddai'n cael eu lleoli mewn CAA ADC fod ag ystod o anghenion. Efallai y bydd angen mannau mwy o faint os oes gan ddisgyblion anableddau corfforol.

**C A fydd Gwerthusiad Swydd yn cael ei gynnal ar gyfer rheolwyr yn yr ysgol gan y byddai CAA yn effeithio arnynt o ran llwyth gwaith.**

MDF Penderfyniad i'r corff llywodraethu fyddai hyn. Mae'n debyg eich bod eisoes yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â chyllid. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, ni fydd y gyllideb yn cael ei chynyddu'n fawr. Awgrymwyd cysylltu ag AD i gael cyngor a chymorth. ***Cam Gweithredu: MDF i wirio gydag AD pa gymorth fydd yn cael ei ddarparu os bydd cynigion CAA yn cael eu datblygu.***

**C Teimlir y byddai'n fuddiol ymweld â CAA, i weld sut maen nhw'n gweithredu a dysgu sut mae'r ochr reoli yn gweithio cyn gwneud penderfyniad. A all JH awgrymu CAAau addas i ymweld â nhw?**

JH Byddai Marlborough yn debyg gan ei fod yn safle trefol. Awgrymiadau eraill yw Llanisien Fach, Llanedern, Bryn Hafod, Ysgol Pwll Coch, Windsor Clive. ***Cam Gweithredu: Mae'r Pennaeth Nicholas Wilson i gysylltu â rhai o'r ysgolion hyn i geisio trefnu ymweliad ar gyfer staff a llywodraethwyr.*** Cynigiodd JH iddi hi neu gydweithwyr cynhwysiant gwrdd â'r ysgol ar ôl yr ymweliad er mwyn trafod.

**Q** **Ymholiad ynghylch a fyddai'n bosibl ymweld â chanolfan newydd neu siarad â staff yno gan y byddai ganddynt brofiad diweddar o'r ymarferoldeb sefydlu canolfan.**

JH Mae Moorland wedi cael ei sefydlu'n ddiweddar a Windsor Clive hefyd (a oedd gynt â chanolfan a ailagorodd yn ddiweddar).

**C** **Yng nghyfarfod y clwstwr soniwyd nad oedd CAA yn y clwstwr. Mae rhai rhieni'n nerfus am anfon plant ymhellach i ffwrdd.**

**C** **Mae cytundeb bod diffyg CAA yn y clwstwr wedi achosi anhawster. Mae rhieni wedi bod yn amharod i ganiatáu i'w plant fynychu CAA ymhellach i ffwrdd gan nad ydyn nhw am i blant deithio.**

JH Cytunwyd bod hyn yn ddigwyddiad cyffredin, ac mae'n un o'r prif resymau pam mae'r awdurdod lleol yn ceisio sefydlu mwy o CAAau mewn lleoliadau ledled y ddinas. Llenwodd Moorland a Windsor Clive yn gyflym gyda theuluoedd a oedd wedi gwrthod darpariaeth o'r blaen ond a oedd yn byw yn ddigon agos i'r CAAau newydd i fod yn barod i anfon eu plant yno.

**C** **Mae to'r ysgol mewn cyflwr gwael. A yw cyflwr yr adeiladau yn rhwystr i fwrw ymlaen â hyn?**

MDF Mae gan rai ysgolion sy'n cynnal CAAau broblemau o ran asedau. Mae'r awdurdod lleol bob amser yn chwilio am arian ar gyfer yr ystâd. Mae'r sefyllfa ariannol bresennol yn heriol. Ni fyddai cyflwr yr adeilad yn atal y CAA rhag symud ymlaen ond byddai'n iawn i'r corff llywodraethu godi'r pryder hwn yn eu hymateb i'r ymgynghoriad.

**C** **Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhagdybio y bydd saith cerbyd ychwanegol; a yw'n debygol o fod yn fwy na hynny os bydd 20 o blant ychwanegol yn mynychu?**

BA Mae'r rhagdybiaeth yn seiliedig ar ddisgyblion sy'n cael eu cludo i'r ysgol gan yr awdurdod lleol. Caiff y tacsis eu rhannu lle bo hynny'n bosibl, felly saith cerbyd yw'r ffigur rhagdybiedig.

**C** **Mae'r ysgol yn disgwyl adroddiad Estyn, sydd i fod i gael ei gyhoeddi'n fuan. Mae'r ddogfen ymgynghori yn cyfeirio at adroddiad blaenorol Estyn. A fydd yr wybodaeth ar-lein yn cael ei diweddaru?**

MDF Ni fydd y ddogfen ymgynghori yn cael ei newid, ond gellid crybwyll canlyniad yr adroddiad newydd mewn cyfarfodydd cyhoeddus ac ati, unwaith y bydd wedi'i dderbyn.

**C** **Ydy'r arian yn cynnwys plant sydd eisoes yn yr ysgol?**

MDF Byddai'r cyllid wedi’i neilltuo ar gyfer dysgwyr newydd ac ni fyddai'n cael ei gymryd o'r gyllideb bresennol.

**C Pryd byddai’r cyllid yn dod i ben?**

MDF Byddai’r cyllid yn dechrau pan fydddai’r ganolfan yn dechrau, a ddisgwylir ym mis Medi 2024, a byddai'n parhau tra bo'r ganolfan yn yr ysgol.

**C Mae cyflwr yr adeilad wedi'i raddio’n C - pryd y gwnaethpwyd hyn, a sut cafodd ei wneud?**

MDF Gwnaethpwyd y graddio trwy arolwg. Cynhaliwyd yr arolwg cychwynnol beth amser yn ôl ar gyfer ystadau'r ysgol gyfan a graddiwyd pob ysgol o ran cyflwr ac addasrwydd. Ailarolygwyd ysgolion gradd C wedi'r arolwg cychwynnol. Mae ysgolion yn cael eu graddio’n A-D o ran cyflwr ac addasrwydd. D yw'r isaf, ac mae'n dangos bod yr adeiladau ar ddiwedd eu hoes. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn newid ysgolion uwchradd a gafodd eu categoreiddio fel bod â chyflwr D – Fitzalan, Cantonian, Willows. Mae C yn fand eithaf eang gyda llawer o ysgolion ynddo. Os bydd gwaith yn cael ei wneud, efallai na fydd yn dod ag ysgol allan o sgôr C, ond efallai y bydd angen dirywiad sylweddol ar ysgolion sydd wedi'u graddio’n C i symud i fand D. Ers y cyflwyniad diwethaf cafwyd un achos o ysgol yn llithro i radd D sy'n golygu bod angen gwaith ar frys ar eu hadeilad.

**C Gwariwyd symiau mawr o arian i godi adeiladau newydd yn lle'r rhai gradd D. A oes gwaith yn cael ei wneud ar ysgolion rhestr C?**

MDF Mae'r rhestr o ysgolion gradd C yn cael ei hystyried yn gyson. Mae gormod o ysgolion wedi’u graddio’n C i allu trwsio pob un, o ran cyllid ac argaeledd contractwyr. Rhaid delio â materion difrifol ar frys, e.e. methiant boeler. Mae'n rhaid blaenoriaethu achosion C cronig, sy'n cael ei wneud ar sail risg, gan asesu ystod o ffactorau. Os yw ysgol yn boblogaidd, gall fod yn anoddach gweithio arni, gan nad oes lle i ddiffodd disgyblion i rannau eraill o'r adeilad tra bod gwaith yn cael ei wneud.

**C A fyddai'n bosibl defnyddio llawr uchaf yr adeilad? Byddai'n helpu i integreiddio CAA i'r ysgol. Hoffwn i hyn gael ei archwilio gan y gallai roi hyblygrwydd –** yn amlwg byddai angen i CAA fod ar y llawr gwaelod.

MDF Gellir archwilio hyn. Byddai angen ystyried y ffordd orau o ymgorffori CAA yn yr adeilad. Yr amser i godi unrhyw faterion, pryderon neu awgrymiadau yw yn ystod y broses ymgynghori. Os yw'r cynnig yn mynd yn ei flaen i hysbysiad statudol, nid oes opsiwn i godi awgrymiadau, dim ond gwrthwynebiadau.

MDF Croesawyd ymatebion i'r ymgynghoriad a nododd, os bydd unigolion yn cyflwyno ymateb, y bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad ymgynghori fel ymateb dienw wedi’i grynhoi. Byddai ymatebion ar ran cyrff fel y staff neu'r corff llywodraethu yn cael eu cynnwys yn llawn a'u priodoli i'r corff llywodraethu. Byddai ymateb gan bennaeth hefyd yn cael ei gynnwys yn llawn.

**C: Beth fyddai'r ffordd orau o ymateb i'r ymgynghoriad?**

MDF Os ydych yn ymateb fel unigolyn, llenwch y ffurflen ymateb, sydd ar gael ar-lein Darpariaeth anghenion dysgu cymhleth ac awtistiaeth (caerdydd.gov.uk). Os ydych yn cyflwyno ffurflen ymateb swyddogol, byddai'n well e-bostio neu anfon llythyr ynghlwm wrth e-bost.

***Cafodd y camau a gytunwyd eu hailadrodd:***

- ***Mae NW i drefnu ymweliad(au) â CAA ac yna cwrdd â Swyddogion Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol i drafod.***
- ***Mae MDF i holi AD ynghylch pa gymorth y byddant yn ei ddarparu ar gyfer prosesau i'r corff llywodraethu.***

- ***Trefnu ymweliad ag Ysgol Gynradd Hafren –*** dywedodd MDF y byddai'n ymweld.

Anfonwch e-bost os gwelwch yn dda (ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk).

Diolchwyd i'r rhai a oedd yn bresennol am eu hamser a daeth y cyfarfod i ben.